## Ymarferion

## To Bach

*Oes to bach ar ben y geiriau yma? Ysgrifennwch y geiriau dach chi'n eu gwybod. Peidiwch ag edrych ar y geiriadur. Mi fyddwn ni'n mynd dros y rheolau ar ôl faint dach chi'n eu cael yn gywir!*

1. song ...............................
2. cheap ...............................
3. house ...............................
4. son ...............................
5. they will go ...............................
6. father ...............................
7. present ...............................
8. rope ...............................
9. meat ...............................
10. tape ...............................
11. frame ...............................
12. they will come ...............................
13. thing ...............................
14. nasty ...............................
15. night ...............................
16. tame ...............................
17. I was (at home last night) ...............................
18. red ...............................
19. small ...............................
20. fire ...............................

21. cat ..............................
22. which one? ..............................
23. picture ..............................
24. train ..............................
25. lane ..............................
26. puzzle ..............................
27. farmyard ..............................
28. tune ..............................
29. bass ..............................
30. John ..............................
31. Jane ..............................
32. smile ..............................
33. old ..............................
34. civilised ..............................
35. about (e.e. We are about to begin.) ..............................
36. border ..............................
37. chin ..............................
38. literature ..............................
39. broad beans ..............................
40. sack ..............................
41. payment ..............................

| **Geirfa:** | | | |
|---|---|---|---|
| Llafariad | Llafariaid | Vowels | *(a,e,i,o,u,y,w)* |
| Cytsain | Cytseiniaid | Consonants | |
| Sill | Sillau | Syllables | |
| Lluosill | | Multi-syllable | |
| Gair unsill | Geiriau unsill | One syllable word | |
| Gair benthyg | Geiriau benthyg | Borrowed words | |
| Sain | Seiniau | Sounds | |

**4 Y Llafariaid**

Gall llafariad Gymraeg fod yn hir neu'n fyr. Mae'r llafariad yn hir mewn geiriau unsill sy'n gorffen â:

**b, ch, d, dd, g, f, ff, s, th**

ac felly, does dim eisiau rhoi to bach arni:

**pob, coch, rhad, gradd, cig, twf, saff, cas, peth**

Mae'r hyd hefyd yn amrywio o flaen **'l'**, **'n'** neu **'r'**. Fel arfer, mae eisiau to bach uwchben **'a'**, **'e'**, **'o'** ac **'w'** pan fyddan nhw'n hir mewn gair unsill sy'n gorffen ag **'l'**, **'n'** neu **'r'**, e.e.

**pâr, cân, gên, stên, côr, môr, stôl, tôn, sŵn, tŵr**

Fel arfer, mae 'i' ac 'u' yn hir o flaen y cytseiniaid hyn, ac felly, does dim angen to bach i ddynodi hynny:

**hir, ffin, hil, sgil, llun, sur**

*Eithriadau:* **prin, swil, bil, pin**

Efo gair benthyg sgìl defnyddir yr acen ddisgynedig i ddangos fod y llafariad yn fyr. Cymharer: **clos** a **clòs**.

Os bydd dwy gytsain yn dilyn y llafariad mewn gair unsill, bydd y llafariad yn fyr fel arfer, e.e.

**bant, pert, corff, punt, brwnt**

Mae'r llafariad yn hir o flaen -n nhw, ac ysgrifennir to bach (^) uwch ei phen i ddangos hynny, e.e.

**cân nhw, ân nhw, gwnân nhw, dôn nhw**

Os bydd gair unsill yn gorffen gyda llafariad, mae'r llafariad yn hir:

**ffa, lle, to, da, si, llu, llw**

ac felly does dim rhaid dodi to bach ar eiriau fel y rhain

*Eithriad*: **tŷ**

Mae'r llythyren **'y'** yn gallu dynodi dwy sain:

(i) Y sain flaen gaeedig, yr un sain ag 'u':

**cryf, dyn**

(ii) Y sain ganolig, sy'n digwydd yn aml iawn mewn geiriau lluosill, ac eithrio yn y sillaf olaf:

**cynnig, prynu, glynu, mynyddoedd**

Y sain ganolig hefyd sydd mewn geiriau diacen fel:

**y, yr, yn (ym, yng), fy, dy**

ac mewn rhai geiriau benthyg unsill fel **ffrynt** a **syr**.

3. DYBLU N + R

Dim ond y ddwy lythyren yma sy’n dyblu yn y Gymraeg:

Mae N + R yn dyblu yn y sillaf olaf ond un e.e.:

| | |
|---|---|
| carreg | caregog |
| pennill | penillion |
| ysgrifennydd | ysgrifenyddes |

4. Os ydy’r gair unigol yn gorffen efo NT, daw NN yn y lluosog:

| | |
|---|---|
| cant | cannoedd |
| punt | punnoedd |
| diwydiant | diwydiannau |

5. Ar ôl llafariad fer mae N + R yn dyblu:

| | |
|---|---|
| ton (wave) | tonnau |
| byr | byrraf |
| glan (shore) | glannau |

6. Ar ôl llafariad hir does dim dyblu N + R:

| | |
|---|---|
| môr | moroedd |
| lôn | lonydd |
| tôn (tune) | tonau |

7. AN + D = ANN

| | | |
|---|---|---|
| an | + | dymunol = annymunol |
| an | + | dedwydd = annedwydd |

8. AN + T = ANNH

| | | |
|---|---|---|
| an | + | teg = annheg |
| an | + | tebyg = annhebyg |

10. Nid oes dyblu N + R ar ôl y terfyniadau (endings) yma:

| | |
|---|---|
| | **- ion** |
| gwyn | gwynion |
| | **- iad** |

| | |
|---|---|
| diflaniad | diflannu |